

Y PWYLLGOR ADOLYGU GWEITHREDOL

6 Rhagfyr 2017

Yn bresennol: Y Cynghorydd K Doolin (Cadeirydd)
Mr A Archer (yn dirprwyo i Mrs J James), Ms C Gwyther, y
Cynghorydd PJ Morgan a'r Cynghorydd S Yelland

[Cyrhaeddodd y Cynghorydd P Harries a Mr AE Sangster yn ystod y
cyflwyniad cyntaf; gweler Cofnod 5]

(Swyddfa APC, Parc Llanion, Doc Penfro: 10.05am – 12.30pm)

1. Ymddiheuriadau

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorydd ML
Evans, Mrs J James a'r Cynghorydd A Wilcox.

2. Datgelu buddiant

Ni ddatgelwyd unrhyw fuddiant.

3. Cofnodion

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 6 Medi 2017 i'w
cadarnhau a'u llofnodi.

PENDERFYNWYD cadarnhau a llofnodi cofnodion y cyfarfod a
gynhaliwyd ar 6 Medi 2017.

4. Personol

Gan mai hwn oedd ei chyfarfod olaf o'r Pwyllgor Adolygu Gweithredol,
diolchodd Ms C Gwyther i'r holl staff am eu gwaith, yn enwedig y cymorth
a ddarparwyd gan y Tîm Gwasanaethau Democrataidd. Roedd o'r farn
bod hwn yn Bwyllgor gwerth chweil i fod arno, gan ei fod yn rhoi goleuni
ar waith ar Awdurdod ac felly'r gallu i wneud penderfyniadau gwybodus.

NODWYD.

5. Adroddiad Rheoli Tir Cadwraeth 2016-17

Mae'r adroddiad yn nodi'r canlyniadau o fonitro'r gwaith o reoli tir ar gyfer
2016-17, ynghyd ag enghreifftiau penodol o lwyddiannau o dan y cynllun
'Gwarchod y Parc'. Hefyd, cyfeiriwyd at y cynnydd o ran rheoli safleoedd
a oedd yn eiddo i'r Awdurdod a gwaith a wnaed ar y prosiectau 'Pwyth
mewn Pryd' a 'Chysylltiadau Naturiol'. Eleni, roedd yr Adroddiad hefyd yn
cyfeirio at yr Amgylchedd Hanesyddol, yn sgil penodi Archaeolegydd
Cymunedol yr Awdurdod. Rhoddwyd cyflwyniad i'w gwaith ers ei
phenodiad ym mis Chwefror 2017. Yn ei hanfod, roedd hyn yn ymwneud
â chysylltu â phobl, ymwelwyr a phobl leol, i godi ymwybyddiaeth am yr



henebion yn yr ardal ac i ddiogelu a gwella'r rhai mewn perygl. Roedd prosiect y Gwarchodwyr Treftadaeth hefyd wedi cael ei ddatblygu i weithio gyda ysgolion, gan eu hannog i fabwysiadu heneb yn eu cymuned.

Roedd yr Aelodau'n falch o glywed y byddai rhagor o wirfoddolwyr yn cael eu recriwtio drwy'r prosiect Llwybrau, a'u bod yn cael eu gwahodd i ymwneud ag amrywiaeth ehangach o brosiectau. Roeddynt hefyd yn canmol y fenter Gwarchodwyr Treftadaeth a'r gwaith i ymwneud â'r Clybiau Ffermwyr Ifanc.

NODWYD.

6. Canolfan Ymwelwyr Oriol y Parc

Roedd yr adroddiad yn cyfeirio at hanes a chefnidir safle Oriol y Parc ac yn amlinellu'r gwaith presennol, datblygiadau diweddar, cynlluniau at y dyfodol a phrosiectau gyda phartneriaid. Roedd cynlluniau'r dyfodol yn cynnwys ail-gyflunio lle mewnol y ganolfan, gan leihau maint y cownter fel bod mwy o le i nwyddau ac i ganiatáu mwy o ymwneud â'r cyhoedd drwy fod y staff yn cerdded o gwmpas y ganolfan yn cyfeirio at wybodaeth ar gyfrifiaduron maint tabled.

Trafodwyd hefyd gostau'r ganolfan a'r incwm a gynhyrchir gan y ganolfan, a holodd rhai Aelodau a oedd gormod o bwyslais ar weithgaredd masnachol ar draul dibenion y Parc Cenedlaethol. Cydnabu'r swyddogion fod angen cynhyrchu incwm i wrthbwysu costau'r canolfannau, ond roeddent yn teimlo bod y cydbwysedd rhwng gweithgaredd masnachol a hyrwyddo'r Parc Cenedlaethol yn iawn, gan nodi bod manwerthu yn rhan hanfodol o'r cynnig ar gyfer ymwelwyr y dyddiau hyn.

Cyfeiriai'r adroddiad at ailnegodi'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth gydag Amgueddfa Genedlaethol Cymru, a gofynnodd yr Aelodau am amseriad hwn a beth yr oedd yr Awdurdod yn gobeithio ei gyflawni. Atebodd y swyddogion fod y Cytundeb i gael ei adnewyddu ar ôl deng mlynedd, ac yn yr amser y bu mewn bodolaeth bu newidiadau sylweddol ymhlith y staff Amgueddfa Genedlaethol Cymru oherwydd effaith ehangach y toriadau i gyllidebau yng Nghymru. Y gobaith oedd y byddai cytundeb newydd yn cael ei gyflwyno i'r Aelodau yn hydref 2018.

NODWYD.

7. Adolygu Dull Newydd o Gyflwyno Gwybodaeth yn Ninbych-y-pysgod a Saundersfoot

Soniwyd, yn dilyn y penderfyniad i gau Canolfan Wybodaeth Dinbych-y-pysgod erbyn diwedd 2016, fod dull newydd wedi'i dreialu yn ardal Dinbych-y-pysgod a Saundersfoot yn ystod haf 2017. Roedd gweithredwr tymhorol yn darparu gwybodaeth a gweithgareddau yn y fan a'r lle mewn



mannau lle roedd nifer uchel o ymwelwyr a lle gallai rhyngweithio â phwrcmon ategu ac ychwanegu at brofiad ymwelwyr. Roedd yr adroddiad yn amlinellu'r gwaith a gyflawnwyd, y cyflawniadau a'r meysydd ar gyfer datblygiad pellach yn ogystal ag adborth gan ymwelwyr a rhanddeiliaid.

Gan gytuno bod llawer o bethau positif yn y dull hwn, gobeithiai'r Aelodau y byddai'r cynllun yn parhau y flwyddyn nesaf, a chadarnhawyd hyn. Roedd rhywfaint o bryder ynghylch natur dymhorol y gwasanaeth, gan ei fod wedi'i gynnal yn Ninbych-y-pysgod / Saundersfoot rhwng canol Mai a dechrau mis Medi, a hefyd y byddai'r un dull yn cael ei gyflwyno ar draws y Parc Cenedlaethol. Teimlent ei bod yn bwysig ymgysylltu â phobl leol yn ogystal ag ymwelwyr. Cydnabu'r swyddogion y byddai angen teilwra gwahanol fodolau i wahanol leoliadau a nodwyd fod y gwasanaeth hwn wedi ychwanegu at y ddarpariaeth a ddarperir drwy'r flwyddyn gan y parcmy'n presennol pan oedd y Sir ar ei phrysuraf. Fodd bynnag, roedd mwy o ymgysylltiad a phartneriaeth â busnesau lleol wedi bod yn fudd arall i'r cynllun treialu.

NODWYD.

8. Adroddiad ar Berfformiad am y Cyfnod yn Diwedd 31 Hydref 2017

Dywedwyd bod yr adroddiad perfformiad yn dilyn strwythur y Cynllun Corfforaethol ac Adnoddau ar gyfer 2017-18, a oedd yn dilyn dull Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol gyda saith amcan lles ac adran ychwanegol yn darparu gwybodaeth am lywodraethu cyffredinol.

Roedd yr adroddiad yn cyfeirio at y perfformiad hyd at 31 Hydref 2017 ac roedd yn cynnwys ystadegau chwarter 1 a chwarter 2 (Ebrill - Medi) ar gyfer rhai setiau data. Roedd yn tynnu sylw at y meysydd hynny lle na chafodd targedau eu bodloni a rhoddwyd peth esboniad am hynny.

Gan ddiolch i'r swyddog am adroddiad cynhwysfawr, gofynnodd yr Aelodau am y system rheoli dogfennau ar-lein a dywedwyd wrthynt fod y cwmni a oedd yn cyflenwi'r rhaglen wedi ei phrynu a'i fod bellach yn bwriadu darparu dewis arall i'r Awdurdod. Wrth gyfarfod â'r cwmni newydd, roedd swyddogion wedi cael sicrwydd y gellid cynnig system debyg am yr un gost.

PENDERFYNWYD derbyn yr Adroddiad am Berfformiad.

9. Y Gofrestr Risg

Dywedodd y Rheolwr Cyllid fod y gofrestr risg wedi cael ei hadolygu gan y Timau Rheoli ac Arweinyddiaeth a nodwyd y cynnydd a'r newidiadau diweddar. Amlinellir y newidiadau arwyddocaol o ran risg yn yr adroddiad, ac roedd y gofrestr lawn wedi'i atodi i'r Aelodau ei hystyried.



NODWYD.

10. Newidiadau Deddfwriaethol ym maes Diogelu Data

Rhoddodd Rheolwr TG yr Awdurdod gyflwyniad a oedd yn amlinellu rôl yr Awdurdod o ran diogelu data a sut yr oedd hynny'n newid o ganlyniad i ddeddfwriaeth newydd. Aeth ymlaen i amlinellu'r camau ymarferol yr oedd yr Awdurdod yn eu cymryd er mwyn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth newydd a chanlyniadau hyn i'r Aelodau.

Gofynnodd yr Aelodau am y goblygiadau ar gyfer defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol, yn enwedig rhannu gwybodaeth a anfonwyd at yr Awdurdod a chadarnhaodd y swyddog y byddai swyddogion yn cael eu hannog i gael caniatâd ar gyfer hyn gan aelodau o'r cyhoedd yn y dyfodol. Roedd goblygiadau hefyd i gyhoeddi dogfennau ar-lein a gyflwynwyd drwy'r system gynllunio, gyda data personol yn gorfod cael ei guddio; yn hyn o beth, roedd angen cael cydbwysedd rhwng bod yn agored ac yn dryloyw a pharchu preifatrwydd. Fodd bynnag, roedd y mater hwn yn effeithio ar bob Awdurdod a gobeithir y byddai'n cael ei ystyried yn genedlaethol.

Gofynnodd Aelodau eraill am yr angen iddynt gofrestru'n unigol fel rheolwyr data, a dywedwyd wrthynt, hyd nes y cyhoeddir canllawiau pellach, na fyddai rôl yr Aelodau ar Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn ei gwneud yn ofynnol iddynt gofrestru, er bod rôl Cynghorwyr Sir yn wahanol ac efallai y bydd yn ofynnol iddynt gofrestru yn rhinwedd y swydd honno. Fodd bynnag, gallai defnyddio e-bost personol a'r cyfryngau cymdeithasol ar gyfer busnes yr Awdurdod fod â goblygiadau i'r Aelodau pe baent yn meddu ar ddata a oedd yn destun unrhyw gais i'r Awdurdod.

NODWYD.

11. Y Grŵp Gwelliant Parhaus: dirprwyo materion

PENDERFYNWYD nad oedd unrhyw faterion yr oedd angen eu dirprwyo i'r grŵp gwelliant parhaus i'w trafod.

12. Diolch

Gan mai hwn oedd ei chyfarfod olaf, diolchodd Cadeirydd y Pwyllgor i Ms Chris Gwyther am ei chyfraniad gan ddymuno'n dda iddi at y dyfodol.

